**Mark Drakeford AS/MS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg**
**Cabinet Secretary for Finance and Welsh Language**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mike Hedges AS
Cadeirydd
Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

15 Tachwedd 2024

Annwyl Mike

**Bil y Gymraeg ac Addysg (Cymru)**

Diolch am eich llythyr dyddiedig 24 Hydref, yn dilyn fy ymddangosiad yn eich Pwyllgor i roi tystiolaeth mewn perthynas â Bil y Gymraeg ac Addysg (Cymru). Rwy'n gobeithio bod y Pwyllgor yn teimlo i'r sesiwn fod yn ddefnyddiol.

Mae'r Atodiad i'ch llythyr yn gofyn nifer o gwestiynau. Mae fy ymateb i bob un o'r cwestiynau hynny wedi'u nodi yn yr Atodiad i'r llythyr hwn.

Diolch i'r Pwyllgor am eu diddordeb yn y Bil hwn ac edrychaf ymlaen at ystyried adroddiad y Pwyllgor, maes o law.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Buffy Williams AS, Cadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg.

Yn gywir,

**Mark Drakeford AS/MS**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg
Cabinet Secretary for Finance and Welsh Language

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Mark.Drakeford@gov.wales
Gohebiaeth.Mark.Drakeford@llyw.cymru

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Atodiad**

1. **Ydych chi wedi cwblhau asesiad o effeithiau'r Bil ar hawliau dynol a beth oedd canlyniad yr asesiad hwnnw?**

   Yn ystod trafodaeth y Pwyllgor, trafodwyd yr effaith ar hawliau dynol a'r Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant gyda'i gilydd.

   Fel gyda holl gynigion Biliau'r Senedd, mae Llywodraeth Cymru yn cynnal asesiad hawliau dynol llawn cyn ei gyflwyno, a gwneir hyn fel rhan o'r ystyriaeth o ran cymhwysedd deddfwriaethol. Rydym yn fodlon bod darpariaethau'r Bil hwn yn cydymffurfio â hynny.

   Mae Pennod 9 o'r Memorandwm Esboniadol yn rhoi crynodeb o'r asesiadau effaith a gynhaliwyd fel rhan o ddatblygiad y Bil. Cyhoeddwyd yr asesiadau effaith llawn sy'n ofynnol ar gyfer y Bil hwn yn yr Asesiad Effaith Integredig ar wefan Llywodraeth Cymru pan gyflwynir y Bil ar 15 Gorffennaf – mae hyn yn cynnwys Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant.

2. **Beth mae'r Bil hwn yn eich galluogi i'w gyflawni nad ydych yn gallu ei gyflawni o fewn y fframwaith deddfwriaethol presennol?**

   Bydd y Bil yn darparu fframwaith cydlynol a chyfeiriad clir i ysgogi'r newidiadau sydd eu hangen i gyflawni ein nod ar gyfer 2050.

   Mae'r Bil yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i baratoi Cod i ddisgrifio gallu yn y Gymraeg. Mae dyletswydd o'r fath ar wyneb y Bil yn darparu eglurder a chydlyniant yn ein dull cenedlaethol o ddisgrifio gallu yn y Gymraeg. Ochr yn ochr â'r dull newydd hwn, mae'r Bil yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i adolygu safonau'r Gymraeg. Mae gosod y ddyletswydd hon ar wyneb y Bil yn dangos y bydd y Cod hefyd yn cael ei ystyried yng nghyd-destun y fframwaith deddfwriaethol presennol.

   Bydd cyflwyno system statudol ar gyfer categorïau iaith ysgolion a'r gofyniad i ysgol gael cynllun cyflawni addysg Gymraeg, o gymharu â'r canllawiau anstatudol presennol ar gategorïau iaith ysgolion, yn allweddol i ysgogi ysgolion i gynyddu eu darpariaeth addysg Gymraeg, pan fo hynny'n rhesymol ymarferol. Bydd y cynllun yn cryfhau'r trefniadau atebolrwydd a'r gefnogaeth benodol y gellir ei darparu gan awdurdodau lleol i sicrhau bod cynnydd digonol yn cael ei wneud tuag at eu targedau CSCA a osodir yn y Fframwaith Cenedlaethol. Bydd y categorïau statudol, drwy reoliadau, yn pennu isafswm darpariaeth addysg Gymraeg ochr yn ochr â'r nodau dysgu Cymraeg a nodir yn y Bil.

   Bydd y Bil yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru osod targedau cenedlaethol statudol yn ogystal â thargedau ar awdurdodau lleol i'w cyrraedd drwy eu Cynlluniau Strategol. Bydd hyn yn pontio'r bwlch sy'n bodoli ar hyn o bryd rhwng targed strategaeth Cymraeg 2050 o filiwn o siaradwyr Cymraeg a chyflawni'r Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg ar lefel awdurdodau lleol.

   Mae'r Bil hefyd yn creu corff statudol i gefnogi pobl i ddysgu Cymraeg, a hwyluso eu cynnydd, fel bod mwy o bobl (o bob oed) yn dysgu'r iaith. Ar hyn o bryd nid oes unrhyw fesurau deddfwriaethol mewn perthynas â'r rôl hon. Mae creu'r Athrofa fel

corff statudol drwy’r Bil hwn felly yn darparu sefydlogrwydd ac agwedd hirdymor at ddysgu’r Gymraeg gydol oes.

3. **Mae’r Memorandwm Esboniadol yn dweud mai dyma’r “darn cyntaf o ddeddfwriaeth sylfaenol i gael ei gyflwyno at ddibenion gwireddu amcan hirdymor” strategaeth Cymraeg 2050. Gan fod y strategaeth wedi’i chyhoeddi ar 10 Gorffennaf 2017, pam y mae wedi cymryd dros 7 mlynedd i gyflwyno’r ddeddfwriaeth hon?**

Mae Bil y Gymraeg ac Addysg yn cael ei gyflwyno yng nghyd-destun yr her sylweddol o gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050, fel y nodir yn ein strategaeth, *Cymraeg 2050*.

Mae’r heriau hynny yn gofyn am newidiadau trawsnewidiol i’r ffordd yr ydym yn meddwl am y Gymraeg, a dyna pam mae’r strategaeth yn ymrwymo i adolygu’r ddeddfwriaeth sy’n sail i’r Gymraeg er mwyn sicrhau ei bod yn cynnig sylfaen gref ar gyfer hybu a hwyluso defnydd o’r Gymraeg.

Rydyn ni’n ystyried bod addysg yn chwarae rhan allweddol ar y daith tuag at filiwn o siaradwyr Cymraeg.

Er mai’r Bil hwn yw’r darn cyntaf o ddeddfwriaeth sylfaenol i’w gyflwyno at ddiben gwireddu amcan hirdymor y strategaeth, mae’n bwysig nodi hefyd nad y Bil hwn yw’r man cychwyn. Fe wnaethom benderfyniad bwriadol i wneud newidiadau yn raddol i’r system gam wrth gam i adeiladu ar yr ewyllys da tuag at yr iaith ac i ddod â phobl gyda ni. O’r herwydd, mae llawer o ddarpariaethau’r Bil yn adeiladu ar waith sydd eisoes wedi’i wneud.

Fe wnaethom gyflwyno canllawiau anstatudol ar gategorïau iaith ysgolion yn 2021, ac mae’r categorïau hynny wedi’u rhoi ar waith yn y CYBLD ers mis Ionawr 2024. Wrth gyflwyno’r canllawiau anstatudol hynny, roedd rhagair y Gweinidog yn nodi y byddem yn ystyried manteision rhoi’r categorïau ar sail statudol dros y blynyddoedd i ddod.

Er mai’r Bil hwn yw’r ddeddfwriaeth sylfaenol gyntaf sydd wedi ei chyflwyno ers strategaeth *Cymraeg 2050*, mae camau statudol wedi’u cymryd hefyd yn sgil cyflwyno Rheoliadau Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (Cymru) 2019.

Mae’r rheoliadau hyn a’r gyfundrefn Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg wedi trawsnewid y ffordd y mae awdurdodau lleol yn cynllunio eu darpariaeth addysg Gymraeg, ac mae’r Bil hwn yn adeiladu ar y cynnydd sydd eisoes wedi’i wneud.

Rydym yn cydnabod bod y system addysg bresennol yn arwain at ddeilliannau ieithyddol tra gwahanol, yn dibynnu ar gyfrwng yr addysg. Rydym am i’r system addysg gofleidio’r Gymraeg fel iaith sy’n perthyn i holl ddisgyblion Cymru. Felly, rydym yn cynnig yn y Bil hwn gamau a fydd yn lleihau’r bwlch yn neilliannau ieithyddol disgyblion ysgol.

Gan adeiladu ar gamau anstatudol a statudol sydd wedi eu cymryd ers cyflwyno *Cymraeg 2050*, credwn mai nawr yw’r amser i gyflwyno’r ddeddfwriaeth sylfaenol hon fel y cam naturiol nesaf wrth inni weithio i wireddu ein huchelgais o gyrraedd miliwn o siaradwyr.

4. **Mae’r Datganiad o Fwriad y Polisi yn dweud nad oes bwriad polisi ar hyn o bryd i ddefnyddio sawl un o’r pwerau i wneud rheoliadau yn y Bil, ac mai eu**

**diben yw “diogelu’r Bil ar gyfer y dyfodol”. A allwch egluro, felly, pam y mae pwerau o’r fath wedi’u cynnwys?**

Mae cynllunio ieithyddol yn ymdrech hirdymor, a bydd ein taith tuag at 2050 yn gofyn inni adolygu’r cynnydd a wneir ac addasu dros amser wrth i amgylchiadau newid.

Wrth baratoi’r Datganiad o Fwriad Polisi rydym wedi ceisio darparu cymaint o wybodaeth â phosibl i bwyllgorau’r Senedd ynghylch sut a phryd y bwriadwn ddefnyddio’r pwerau a’r dyletswyddau sydd yn y Bil i wneud is-ddeddfwriaeth.

Mae chwe achlysur lle’r ydym wedi nodi nad oes unrhyw fwriad ar hyn o bryd i ddefnyddio’r pŵer neu nad oes unrhyw fwriad uniongyrchol neu fyrdymor i ddefnyddio’r pŵer. Mae’r rhesymau pam yr ydym wedi cynnwys y pwerau yn y Bil wedi’u nodi ym Mhennod 5 o’r Memorandwm Esboniadol ac yn y Datganiad o Fwriad Polisi. Nodir yr enghreifftiau hyn isod:

i. Adran 13(2), sy’n rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau sy’n diwygio adran 9 o’r Bil er mwyn ychwanegu neu ddiwygio categori iaith ac adran 13(4) sy’n datgan bod angen i unrhyw reoliadau a wneir i ychwanegu categori iaith gynnwys nod dysgu Cymraeg ar gyfer y categori hwnnw. Ar hyn o bryd rydym yn cynllunio y bydd tri chategori iaith statudol fel y nodir yn y Bil. Mae angen y pŵer i alluogi Gweinidogion Cymru i ymateb i unrhyw ddatblygiadau yn y dyfodol neu ymatebion i ymgynghoriad sy’n nodi y byddai’n ddymunol ychwanegu neu ddiwygio categori iaith.

ii. Rheoliadau o dan adran 14(2)(b)(vi) – mae hyn yn caniatáu i Weinidogion Cymru bennu unrhyw berson y mae’n rhaid i gorff llywodraethu ysgol ymgynghori ag ef wrth baratoi cynllun cyflawni addysg Gymraeg. Mae’r pŵer yn ofynnol gan y gallai fod yn briodol i ychwanegu ymgyngoreion os, er enghraifft, y sefydlir corff newydd sydd â buddiant mewn cynlluniau cyflawni ysgolion, neu os oes angen ychwanegu person arall at y rhestr o ymgyngoreion yn adran 14(2)(b).

iii. Rheoliadau o dan adran 14(4)(a)–(b) – mae’r is-adrannau hyn yn caniatáu i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau i ddiwygio hyd y cyfnod y mae cynllun cyflawni yn cael effaith, a gwneud darpariaeth ynghylch ffurf a chynnwys cynllun cyflawni. Mae'r Bil yn darparu y bydd y cynllun cyflawni yn effeithiol am dair blwyddyn ysgol (a.14(3)). Mae angen y pŵer i ganiatáu i Weinidogion Cymru ddiwygio hyd y cynlluniau cyflawni yn y dyfodol os bernir eu bod yn rhy fyr neu'n rhy hir. Gellid defnyddio’r pŵer yn adran 14(4)(b) i roi mwy o fanylion am yr hyn y dylai cynlluniau cyflawni addysg Gymraeg eu cynnwys a’u ffurf. Byddai hyn yn galluogi cysondeb o ran dull ysgolion o lenwi’r cynlluniau.

iv. Rheoliadau o dan adran 20(2) – mae'r pŵer hwn yn caniatáu i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau i wneud darpariaeth bellach mewn perthynas â chynlluniau cyflawni addysg Gymraeg ysgolion arbennig cymunedol. Bydd y pŵer hwn yn cael ei arfer gan y bydd y rheoliadau yn rhoi rhagor o fanylion i ganiatáu i ysgolion arbennig cymunedol baratoi cynlluniau cyflawni addysg Gymraeg. Gall y manylion sydd i’w cynnwys yn y cynlluniau newid dros amser, felly mae angen y pŵer hwn i roi hyblygrwydd i Weinidogion Cymru wneud newidiadau yn ôl yr angen. Bydd y Datganiad o Fwriad Polisi yn cael ei ddiwygio i adlewyrchu'r bwriad i ddefnyddio'r pŵer hwn.

v. Rheoliadau o dan adran 23(9) – mae’r adran hon yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru newid yr hyn y mae’n ofynnol ei gynnwys yn y Fframwaith Cenedlaethol ar Addysg Gymraeg a Dysgu Cymraeg, neu y caniateir ei gynnwys yn y Fframwaith,

fel y nodir yn adrannau 23(3)–(7) o'r Bil. Mae angen y pŵer i roi’r hyblygrwydd i Weinidogion amrywio’r gofynion o ran yr hyn y dylid ei gynnwys yn y Fframwaith Cenedlaethol, pan fo angen, er mwyn ymateb i sefyllfaoedd newydd a all godi dros amser.

vi. Rheoliadau o dan adran 53(1) – mae’r adran hon yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud darpariaeth sy’n atodol neu’n ategol i unrhyw ddarpariaeth yn y Bil neu sy’n ganlyniadol i unrhyw ddarpariaeth yn y Bil, ac i wneud darpariaeth drosiannol, darpariaeth dros dro. neu ddarpariaeth arbed mewn cysylltiad ag unrhyw ddarpariaeth yn y Bil. Bwriad y pŵer hwn fydd galluogi Gweinidogion Cymru i wneud newidiadau dros amser, er mwyn sicrhau bod y Bil hwn yn cydweithio â chyfreithiau eraill. Mae’n briodol felly cyflwyno rheoliadau i roi’r hyblygrwydd i Weinidogion Cymru allu addasu i amgylchiadau nas rhagwelir.

**5. A allwch gadarnhau a yw adrannau 3(1) a 3(2)(b) yn rhoi dyletswyddau neu bwerau gwneud rheoliadau? Mae’r disgrifiad yn y Datganiad o Fwriad y Polisi yn anghyson.**

Mae adran 3(1) o’r Bil yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau. Mae adrannau 3(2)(b) yn darparu pŵer i wneud rheoliadau. Bydd fy swyddogion yn cywiro’r fersiwn Saesneg o’r Datganiad o Fwriad Polisi er mwyn sicrhau bod cyfeiriadau’n cael eu defnyddio’n gywir.

Mae'r disgrifiadau yn y fersiwn Gymraeg o'r Datganiad o Fwriad Polisi yn gywir.

**6. Mae adran 3(1) o’r Bil yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau sy’n pennu’r data sydd i’w defnyddio i gyfrifo nifer y siaradwyr Cymraeg. Mae adran 3(2) yn mynd ymlaen i egluro mai ar sail hunanasesiad y penderfynir a yw person yn siaradwr Cymraeg neu, yn achos plentyn, ar sail asesiad rhiant neu ofalwr y plentyn neu unrhyw ddull arall a bennir drwy reoliadau. A allwch egluro i ni sut y mae adrannau 3(1) a 3(2) yn rhyngweithio? Mae’r Datganiad o Fwriad y Polisi yn nodi bod adran 3(2) yn gyfyngiad ar y pŵer yn adran 3(1), ond nid yw hyn wedi’i nodi’n glir ar wyneb y Bil.**

Rhaid penderfynu a yw person yn siaradwr Cymraeg at ddibenion adrannau 1 a 2 yn unol â darpariaethau adran 3(2). Rhaid i reoliadau o dan adran 3(1) bennu’r data sydd i’w ddefnyddio i gyfrifo nifer y siaradwyr Cymraeg at ddibenion adrannau 1 a 2. Mae adran 3(2) yn gyfyngiad ar y pŵer yn adran 3(1) fel bod rhaid cysylltu data a ddefnyddir i gyfrif siaradwyr Cymraeg ag ystyr siaradwr Cymraeg yn 3(2).

Er enghraifft, mae penderfynu a yw person 16 oed neu hŷn yn siaradwr Cymraeg i’w benderfynu ar sail hunanasesiad (adran 3(2)(a)). Byddai’n rhaid felly i’r data a nodir mewn rheoliadau a wneir o dan adran 3(1) i gyfrifo nifer y siaradwyr Cymraeg 16 oed neu hŷn gynnwys y rheini sydd wedi hunanasesu eu hunain fel siaradwyr Cymraeg.

**7. Mae adran 10(1) o’r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau sy’n pennu faint o addysg Gymraeg sy’n cael ei darparu ar gyfer pob categori iaith. Mae adran 13(1) yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud darpariaeth bellach am gategorïau iaith ysgolion. Mae’r Datganiad o Fwriad y Polisi yn nodi y bydd yn bwysig ymgynghori cyn gwneud rheoliadau; a allwch egluro pam nad oes dyletswydd ar Weinidogion Cymru i ymgynghori ar wyneb y Bil?**

Yn gyffredinol, nid ydym yn gosod dyletswyddau mewn deddfwriaeth i ymgynghori ar is-ddeddfwriaeth. Bydd gofynion cyfraith gyhoeddus gyffredinol yn berthnasol. Mae'n arfer safonol gan Lywodraeth Cymru i ymgynghori'n gyhoeddus lle bo'n briodol i geisio barn ar is-ddeddfwriaeth – ac ar yr adeg briodol i wneud hynny. Fel yr ydym wedi'i nodi yn y Datganiad o Fwriad Polisi, rydym o'r farn y bydd angen ymgynghoriad cyhoeddus ar y rheoliadau hyn.

8. **Mae adran 13(1) yn dweud y caiff Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, wneud darpariaeth bellach am gategorïau iaith ysgolion. Beth yw terfynau'r "ddarpariaeth bellach" hon a pham na allwch nodi'n fwy penodol at ba ddiben y bydd y pŵer hwn yn cael ei ddefnyddio?**

Mae adran 13 wedi'i chyfyngu gan Ran 3, ac yn benodol gan y darpariaethau yn adran 9. Mae'r pŵer hwn i wneud 'darpariaeth bellach'. O ran yr hyn y bydd y pŵer yn cael ei ddefnyddio ar ei gyfer, y bwriad yw sicrhau bod gan Weinidogion Cymru bwerau digonol i ymateb i amgylchiadau sy'n newid heb orfod diwygio deddfwriaeth sylfaenol.

Mae adran 13(2) yn nodi'n benodol y diwygiadau posibl y gall fod eu hangen i adran 9 dros amser, ond mae'r pŵer ehangach i wneud darpariaeth bellach yn adran 13(1) yn bŵer i ymhelaethu ar y ddarpariaeth bresennol yn adran 9 – sef rhoi mwy o fanylion am gategorïau iaith.

9. **Mae adran 13(5) yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru benderfynu a ydynt am arfer eu pŵer i gynyddu'r isafswm o ddarpariaeth addysg Gymraeg ar gyfer y categori 'Prif Iaith– Saesneg, rhannol Gymraeg', o fewn 5 mlynedd i ddyddiad dod i rym y pŵer hwnnw, ac wedi hynny o fewn pob cyfnod o 5 mlynedd sy'n dilyn eu penderfyniad diweddaraf. A allwch gadarnhau beth yw bwriad y ddarpariaeth hon– a ellir arfer y pŵer mor rheolaidd ag y mae Gweinidogion Cymru yn ei benderfynu, ar yr amod nad oes mwy na 5 mlynedd rhwng penderfyniadau ynghylch a ddylid ei arfer?**

Gellir arfer y pŵer yn adran 13(2)(b) ar unrhyw adeg. Diben adran 13(5) yw rhoi sicrwydd y bydd Gweinidogion Cymru yn ystyried arfer y pŵer o dan adran 13(2)(b) bob 5 mlynedd.

10. **Mae adrannau 14(3), 29(1) a 44(8) yn pennu y bydd dyddiadau dechrau cynlluniau neu gyfnodau cynllunio yn cael eu pennu mewn rheoliadau. Os nad yw'r dyddiadau wedi'u nodi ar wyneb y Bil, a oes perygl efallai na fydd y pwerau yn cael eu harfer ac na fydd y darpariaethau hyn yn cael eu cychwyn?**

Nid oes perygl na chaiff y pwerau hyn eu harfer. Mae cynlluniau cyflawni ysgolion a'r Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg lleol yn elfennau allweddol yng ngweithrediad y Bil.

Rwyf o'r farn ei bod yn briodol bod Gweinidogion Cymru yn pennu'r dyddiad cychwyn ar gyfer cyfnod 5 mlynedd cyntaf y cynllun strategol Cymraeg mewn addysg lleol mewn rheoliadau (adran 29(1)), gan fod y gwaith o'u paratoi yn dibynnu ar ddyddiad cyhoeddi'r Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Addysg Gymraeg a Dysgu Cymraeg. Mae'n ddyletswydd ar Weinidogion Cymru i osod y Fframwaith Cenedlaethol cyntaf gerbron y Senedd cyn 31 Gorffennaf 2028 (adran 26(3)). Dyma'r dyddiad hwyraf ar gyfer gosod y Fframwaith Cenedlaethol. Os bydd amgylchiadau yn caniatáu, gellir ei osod yn gynt na hynny. Mae'n briodol felly cynnig hyblygrwydd wrth osod y dyddiad cyntaf ar gyfer y cynllun strategol Cymraeg mewn addysg lleol mewn is-ddeddfwriaeth.

Yn yr un modd, rwyf o’r farn ei bod yn briodol caniatáu hyblygrwydd i Weinidogion Cymru bennu’r flwyddyn ysgol y mae’r cynllun cyflawni ysgol cyntaf yn dechrau ynddi drwy reoliadau (adran 14(3)) i sicrhau bod y categorïau iaith statudol yn weithredol (hynny yw, swm y ddarpariaeth addysg Gymraeg ar gyfer pob categori o dan adran 10(1)) a chaniatáu i'r cynllun strategol Cymraeg mewn addysg lleol perthnasol gael ei ystyried (a.14(2)(a)).

Rhaid i’r Athrofa Dysgu Cymraeg Genedlaethol baratoi cynllun strategol, felly bydd Gweinidogion Cymru yn arfer y pŵer yn adran 44(8)(a) sy’n manylu ar y cyfnod cynllunio cyntaf. Bydd cyfnodau cynllunio dilynol yn para 3 blynedd oni bai bod Gweinidogion Cymru yn gwneud rheoliadau sy’n pennu cyfnod gwahanol o dan y pŵer i wneud rheoliadau yn adran 44(8)(b). Mae rheoliadau yn rhoi'r hyblygrwydd i'r Gweinidogion bennu'r cyfnodau cynllunio ar gyfer yr Athrofa yn ôl yr angen.

Fel y mae’r enghreifftiau hyn yn ei ddangos, mae nifer o gyd-ddibyniaethau o ran dilyniant gwahanol agweddau ar y Bil. Yn sesiwn y Pwyllgor cynigiais rannu’r cerrig milltir lefel uchel presennol o ran gweithredu’r Bil gyda chi, a ddarperir ochr yn ochr â’r llythyr hwn ar ffurf tabl yn nogfen 1 ac yn weledol yn nogfen 2. Wrth rannu’r dogfennau hyn, hoffwn bwysleisio i’r Pwyllgor fod y dyddiadau hyn yn cynrychioli'r rhagdybiaethau cynllunio presennol. Bydd gwaith pellach yn cael ei wneud dros y misoedd nesaf mewn perthynas â'r trefniadau gweithredu manwl. Nid yw’r amserlenni dangosol yn nodi’r holl waith sydd ei angen i weithredu’r Bil e.e. bydd angen paratoi eitemau ychwanegol o is-ddeddfwriaeth megis Gorchmynion Cychwyn.

**11. Pam mae “gydol oes” mewn cromfachau yn adran 23(1)(b), a “cenedlaethol” mewn cromfachau yn adran 23(5)(b)?**

Yn adran 23(1)(b) bwriedir i’r cromfachau roi eglurhad bod gan ‘dysgu Cymraeg’ ystyr ehangach, mwy cyffredinol na’r hyn a ddefnyddiwyd yn y Bil hyd at y pwynt hwnnw, nid yw wedi’i gyfyngu i ddysgu Cymraeg mewn lleoliad oedran ysgol gorfodol.

Yn yr un modd, yn adran 23(5)(b) defnyddir cromfachau i egluro bod targedau yn y paragraff hwn i adlewyrchu'r targedau cenedlaethol, nid targedau lleol y cyfeirir atynt yn adran 23(5)(a).

**12. Mae adran 28(3)(a) yn ei gwneud yn ofynnol i gynllun strategol lleol Cymraeg mewn addysg gynnwys “gwybodaeth am yr ymarferwyr addysg sy’n gweithio yn ardal yr awdurdod lleol”. Mae’r term “gwybodaeth” yn amwys – pa wybodaeth ydych chi’n rhagweld fydd yn cael ei chynnwys yn y cynllun strategol lleol Cymraeg mewn addysg a pham nad oes manylion priodol wedi eu cynnwys ar wyneb y Bil?**

Gallai hyn gynnwys nifer yr ymarferwyr neu eu gallu yn y Gymraeg, neu eu hoedran. Y bwriad yw y bydd rheoliadau o dan adran 33 yn gallu rhoi mwy o fanylion am yr hyn y mae angen ei gynnwys yn y cynllun strategol Cymraeg mewn addysg lleol. Gallai hyn newid wrth i amser fynd yn ei flaen - bydd ein taith tuag at 2050 yn gofyn i ni adolygu’r cynnydd a wneir ac addasu dros amser wrth i amgylchiadau newid.

**13. Mae adrannau 30 a 32 yn caniatáu i Weinidogion Cymru ddyroddi cyfarwyddydau i awdurdodau lleol mewn perthynas â chynlluniau strategol lleol Cymraeg mewn addysg y maent wedi’u llunio. Nid oes unrhyw weithdrefn i’w chymhwyso i gyfarwyddydau o’r fath. O ystyried bod y pŵer hwn yn caniatáu i Weinidogion Cymru ymyrryd â phroses yr awdurdod lleol o wneud**

**penderfyniadau'n oddrychol, pam nad yw'n ddarostyngedig i weithdrefn graffu?**

Mae adrannau 30 a 32 o'r Bil yn bwerau i wneud cyfarwyddydau sy'n "weithredol" eu natur, yn hytrach na lled-ddeddfwriaethol. Pan fo deddfwriaeth sylfaenol yn gwneud darpariaeth ynghylch y pŵer i wneud cyfarwyddydau o'r math hwn, nid yw'n arferol i gyfarwyddydau o'r fath fod yn ddarostyngedig i weithdrefn mewn deddfwriaeth sylfaenol.

14. **Mae adran 33 o'r Bil yn cynnwys pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau sy'n ymwneud ag ystod eang o faterion sy'n ymwneud â chynlluniau strategol lleol Cymraeg mewn addysg, fel y'u rhestrir yn y Datganiad o Fwriad y Polisi.**

    a. **O ystyried ehangder y pŵer hwn, a ydych yn meddwl y byddai'n fwy priodol iddo fod yn ddarostyngedig i'r weithdrefn graffu gadarnhaol?**

    Mae'r Bil yn deddfu ar gyfer nifer o gysyniadau allweddol sy'n ymwneud â Chynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg lleol, er enghraifft:

    - beth sy'n rhaid ei gynnwys yn y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg,
    - hyd y CSCA a
    - pwy y mae'n rhaid ymgynghori â hwy.

    Byddai hyn yn gwyro tuag at weithdrefn negyddol, fel y nodir yng nghanllawiau Llywodraeth Cymru ar is-ddeddfwriaeth.

    Mae cyfle hefyd o dan y pŵer i'r rheoliadau wneud darpariaeth ynghylch cynnwys y cynllun, a fydd yn adeiladu ar y gofynion a ragnodir yn adran 28, ac sy'n caniatáu i Weinidogion Cymru wneud darpariaeth benodol a manylach (fel yw'r achos gyda'r rheoliadau presennol ar Gynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg).

    Byddai hefyd yn caniatáu i Weinidogion Cymru ymateb i newidiadau mewn amgylchiadau a blaenoriaethau dros amser. Bydd y pŵer hwnnw'n cael ei gyfyngu gan gwmpas adran 28 – rhaid i'r darpariaethau yn y rheoliadau ynghylch y cynnwys ddod o fewn cwmpas adran 28.

    Mae defnyddio'r weithdrefn negyddol yn adlewyrchu'r weithdrefn bresennol yn Neddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013. Rwyf o'r farn bod modd cyfiawnhau'r weithdrefn negyddol ar y sail ei bod yn dilyn arfer presennol a'r ddeddfwriaeth bresennol.

    b. **Yn adran 33(2), beth ydych chi'n ei olygu pan ddywedwch y gallai rheoliadau wneud darpariaeth sy'n "cymhwyso adrannau 28 i 32 gydag addasiadau" at ddibenion llunio cynlluniau strategol lleol Cymraeg mewn addysg ar y cyd – sut olwg fyddai ar addasiadau o'r fath?**

    Mae hyn yn gymwys pan ganiateir i awdurdodau lleol baratoi cynlluniau ar y cyd o ganlyniad i reoliadau a wneir o dan adran 33(2). Mewn sefyllfa o'r fath efallai y bydd angen addasu rhai o ofynion adrannau 28 i 32 i adlewyrchu natur y cynlluniau ar y cyd, a'r ffaith y bydd yn cwmpasu ardal fwy nag un awdurdod. Efallai hefyd y bydd angen addasu er mwyn adlewyrchu'r targedau ar wahân y bydd yr awdurdodau lleol yn eu derbyn yn y Fframwaith.

Mae hyn yn adlewyrchu'r pŵer yn fframwaith statudol presennol y Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (adran 87 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013).

c. **Pam nad oes unrhyw fanylion ar wyneb y Bil ynghylch cynlluniau strategol lleol Cymraeg mewn addysg ar y cyd?**

Mae ymdrin â chynlluniau ar y cyd mewn rheoliadau yn golygu y gellir ymgynghori ynghylch pa fath o gynlluniau ar y cyd y gellid eu creu. Gallai hynny fod yn wahanol mewn gwahanol rannau o Gymru. Bydd cael pŵer i wneud rheoliadau yn caniatáu mecanwaith mwy pwrpasol a phenodol ar gyfer cynlluniau o'r fath. Mae hyn yn adlewyrchu'r pŵer yn fframwaith statudol presennol y Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (adran 87 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013).

15. **Mae paragraff 2 o Atodlen 2 i'r Bil yn caniatáu i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau sy'n amrywio nifer aelodau'r Athrofa Dysgu Cymraeg Genedlaethol newydd. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi bod hyn yn ddarostyngedig i'r weithdrefn graffu negyddol, ond gan mai dim ond er mwyn diwygio paragraff 2(1) o Atodlen 2 y gellir arfer y pŵer, a allwch gadarnhau ei fod, mewn gwirionedd, yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol ddrafft yn unol ag adran 52(4)(b)?**

Rydym yn cytuno â'r Pwyllgor y byddai rheoliadau a wneir o dan baragraff 2(4) o Atodlen 2 i'r Bil yn diwygio paragraff 2(1) o Atodlen 2 i'r Bil, gan ei fod yn bŵer i ddiwygio darpariaeth yn Neddf y Gymraeg ac Addysg (Cymru). Rydym yn cytuno mai effaith adran 52(4)(b) yw bod y weithdrefn gadarnhaol yn berthnasol i'r rheoliadau. Byddwn yn ystyried a oes angen diwygio adran 52(4)(a) o'r Bil a byddwn yn diwygio Tabl 5.1 o'r Memorandwm Esboniadol i sicrhau ei fod yn adlewyrchu testun y Bil.

16. **Mae paragraff 18 o Atodlen 2 i'r Bil yn ymdrin â rhwymedigaethau Archwilydd Cyffredinol Cymru mewn perthynas â'r Athrofa Dysgu Cymraeg Genedlaethol newydd. A allwch roi manylion i ni ynghylch a wnaethoch ystyried a yw paragraff 18 yn cydymffurfio â pharagraff 5(3) o Atodlen 7B i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006?**

Mae paragraff 18 o Atodlen 2 i'r Bil hwn yn rhoi pŵer i'r Archwilydd Cyffredinol gynnal archwiliad ariannol, yn datgan bod amcanion polisi y tu hwnt i gwmpas y disgresiwn a ddarperir i'r Archwilydd Cyffredinol, ac yn darparu'r hyn y mae'n rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol ei wneud cyn ac ar ôl cynnal archwiliad ariannol. Nid oes unrhyw ddarpariaeth ym mharagraff 18 sy'n rheoli neu'n cyfarwyddo'r defnydd o swyddogaethau archwilio ariannol yr Archwilydd Cyffredinol, ac mae'r ddarpariaeth yn cydymffurfio â pharagraff 5(3) o Atodlen 7B i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

17. **Mae paragraff 15(4) o Atodlen 2 yn caniatáu i Weinidogion Cymru bennu'r cyfrifoldebau fydd gan swyddog cyfrifyddu'r Athrofa newydd. Sut y bydd y cyfrifoldebau hyn yn cael eu pennu'n ymarferol ac a fydd cyfle i'r Senedd graffu arnynt? Pam na ellir eu rhestru'n benodol ar wyneb y Bil, yn hytrach na'r rhestr anghyflawn ym mharagraff 15(5)?**

Bydd yr Athrofa yn gorff a noddir gan Lywodraeth Cymru, yn gweithredu hyd braich o'r Llywodraeth, ond o fewn fframwaith cynllunio a chyllido strategol a sefydlir gan Weinidogion Cymru. Bydd y fframwaith hwn yn adlewyrchu'r ddogfen fframwaith safonol ar gyfer Corff a Noddir gan Lywodraeth Cymru ac yn manylu ar y telerau a'r amodau y mae Gweinidogion Cymru yn darparu adnoddau oddi tanynt i'r Athrofa,

rolau a chyfrifoldebau Gweinidogion Cymru a’r Athrofa yn ogystal â’r berthynas rhyngddynt. Mae hyn yn cynnwys rolau a chyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu ac aelodau unigol y Bwrdd.

Bydd gan y Swyddfa Archwilio gyfrifoldebau penodol am briodoldeb a rheoleidd-dra’r cyllid cyhoeddus y mae’n gyfrifol amdano, a bydd hyn yn cael ei gynnwys mewn memorandwm ar wahân o dan y fframwaith, gan gynnwys atebolrwydd yr Athrofa i’r Senedd, Llywodraeth Cymru a bwrdd yr Athrofa. Mae cyfrifoldebau’r Swyddog Cyfrifyddu yn deillio’n wreiddiol o’r Trysorlys – ac mae gan yr Ysgrifennydd Parhaol rôl o ran sicrhau bod cyfrifoldebau’r Swyddog Cyfrifyddu yn adlewyrchu’r cyfrifoldebau hynny. Nid oes gan y Senedd unrhyw bŵer i ymyrryd i’r perwyl hwn.

Y rheswm dros ddarparu rhestr nad yw’n hollgynhwysfawr yw er mwyn rhoi paramedrau eang i’r rôl ond hefyd darparu hyblygrwydd mewn perthynas â swyddogaethau’r prif swyddog cyfrifyddu sy’n ddigon hyblyg i adlewyrchu unrhyw esblygiad yng ngofynion Gweinidogion Cymru ar atebolrwydd ariannol o fewn y fframwaith ariannu. Yn aml iawn, nid yw deddfwriaeth sylfaenol yn dweud dim byd o gwbl am ddyletswyddau’r Swyddog Cyfrifyddu wrth sefydlu corff statudol newydd, felly nod paragraff 15 yw rhoi syniad bras o beth fydd y dyletswyddau hynny, heb fod yn rhy ragnodol.

Yn ogystal, mae egwyddorion cyfrifyddu cyffredinol yn gymwys i gyrff sy'n ymwneud ag arian y Llywodraeth.

**18. Mae’r Bil yn defnyddio’r term “addysg Gymraeg”, sy’n cael ei ddiffinio ar wahân yn adran 8(2)(a) ar gyfer Rhan 3, ac adran 35(a) ar gyfer Rhan 4. Mae’r ddau ddiffiniad yr un fath. Mae’r term yn cael ei ddefnyddio hefyd yn adrannau 1(1)(c)(i) a 39(2) ond nid yw’n cael ei ddiffinio at y dibenion hynny. Pam na chafodd un diffiniad ei fewnosod yn adran 49(3) o’r Bil a fyddai wedyn yn gymwys drwy gydol y Bil, ac a ydych yn cytuno y gallai’r diffyg diffiniad o ‘addysg Gymraeg’ yn adrannau 1(1)(c)(i) a 39(2) achosi dryswch wrth ddehongli?**

Rydym yn cytuno nad yw’r term “addysg Gymraeg” wedi’i ddiffinio yn adrannau 1(1)(c)(i) ac adran 39(2). Byddwn yn ystyried y mater hwn ymhellach.

**19. Mae adran 50 yn ymdrin â chyhoeddi dogfennau, ac mae’n dweud, pan fo dyletswydd ar berson i gyhoeddi dogfen yn electronig a bod ganddo ei wefan ei hun, fod rhaid cyhoeddi’r ddogfen ar y wefan honno. Ble y bydd y ddogfen yn cael ei chyhoeddi os nad oes ganddynt eu gwefan eu hun?**

Mae’r ddarpariaeth yn debyg i adran 171 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. Polisi Llywodraeth Cymru bryd hynny oedd, pan oedd dyletswydd i gyhoeddi’n electronig yn disgyn ar gyngor cymuned o dan y Ddeddf honno ac nad oedd gan y cyngor cymuned hwnnw wefan, gallent ofyn i'r awdurdod lleol gyhoeddi'r deunydd ar eu gwefan nhw.

Yn y cyd-destun hwn, os nad oedd gwefan gan ysgol, gallent ofyn i'r awdurdod lleol gyhoeddi’r ddogfen. Mewn perthynas â Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, nid oedd unrhyw bryderon y byddai’r cyrff y gosodwyd y ddyletswydd honno arnynt yn cael unrhyw broblemau wrth gyflawni’r ddyletswydd.

O ran y ddyletswydd i gyhoeddi'n "electronig", gallai ysgol hefyd gyhoeddi dogfennau drwy ap, ac mae adran 50(1) yn caniatáu ar gyfer hynny. Efallai y bydd llwyfannau cyfryngau digidol neu gymdeithasol eraill hefyd yn cael eu defnyddio yn y dyfodol.

20. **Mae'r pwyntiau pellach hyn wedi'u nodi mewn perthynas â'r Datganiad o Fwriad y Polisi a'r Memorandwm Esboniadol:**

   a. **Yn fersiwn Saesneg y Nodiadau Esboniadol, sydd wedi'u cynnwys yn Atodiad 1 i'r Memorandwm Esboniadol, mewn perthynas ag adran 11, mae'r disgrifiad yn y cofnod yn y tabl ar gyfer nod dysgu Cymraeg ysgolion 'Prif Iaith - Saesneg, rhannol Gymraeg' yn dweud, 'By a date specified by the Welsh Ministers by regulations, that pupils are basic users…' Ond nid yw hyn yn adlewyrchu geiriad adran 11(3)(a). Mae fersiwn Gymraeg y Nodiadau Esboniadol yn dweud 'Hyd at ddyddiad'.**

      Bydd fy swyddogion yn cywiro'r fersiwn Saesneg o'r Memorandwm Esboniadol i adlewyrchu drafftio'r Bil ac i sicrhau bod fersiynau'r ddwy iaith o'r Memorandwm Esboniadol yn gyson.

   b. **Mae'r Datganiad o Fwriad y Polisi, ar dudalennau 13 a 18, mewn perthynas ag adrannau 10(1), 10(2), 13(2) a 13(4), yn dweud bod 'adran 13(5) yn nodi bod yn rhaid i Weinidogion Cymru benderfynu bob 5 mlynedd a ydynt am ddiwygio'r categorïau iaith'. Fodd bynnag, mae adran 13(5) yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru benderfynu bob 5 mlynedd a ydynt am arfer y pŵer i wneud rheoliadau o dan adran 13(2)(b), sef y pŵer i wneud rheoliadau i gynyddu'r isafswm o ddarpariaeth addysg Gymraeg ar gyfer y catoegori 'Prif Iaith - Saesneg, rhannol Gymraeg'.**

      Rydym yn cytuno â'r Pwyllgor ar y pwynt hwn a bydd fy swyddogion yn diwygio'r Memorandwm Esboniadol.

   c. **Mewn perthynas ag adran 16(6)(c), mae Tabl 5.2 yn fersiwn Saesneg y Memorandwm Esboniadol yn dweud ei fod yn bŵer a roddir i Weinidogion Cymru, ond i awdurdodau lleol y mae'n cael ei roi mewn gwirionedd. Mae fersiwn Gymraeg y Memorandwm Esboniadol yn gywir.**

      Bydd fy swyddogion yn cywiro'r fersiwn Saesneg o'r Memorandwm Esboniadol i adlewyrchu drafftio'r Bil ac i sicrhau bod fersiynau'r ddwy iaith o'r Memorandwm Esboniadol yn gyson.

   d. **Mewn perthynas ag adran 20(4), mae Tabl 5.1 yn y Memorandwm Esboniadol yn dweud ei bod yn 'rhoi dyletswydd i wneud darpariaeth, mewn perthynas â dynodiad gwirfoddol, gan gynnwys addasu Rhan 3 y Bil', ac mae'n dweud hefyd, 'Mae'r pŵer yn galluogi Gweinidogion Cymru i ddiwygio deddfwriaeth sylfaenol'. Ond pŵer yw hwn i wneud rheoliadau sy'n cymhwyso Rhan 3 gydag addasiadau, ac nid pŵer i ddiwygio deddfwriaeth sylfaenol.**

      Rydym yn cytuno â'r Pwyllgor ar y pwynt hwn a byddwn yn diwygio'r Memorandwm Esboniadol i sicrhau ei bod yn glir nad yw'r pŵer yn galluogi Gweinidogion Cymru i ddiwygio deddfwriaeth sylfaenol. Mae'n bŵer i gymhwyso Rhan 3 o'r Bil gydag addasiadau pan fo ysgolion arbennig cymunedol yn dynodi categori iaith yn wirfoddol. Rwy'n cadarnhau y caiff y rheoliadau eu gwneud o dan y weithdrefn gadarnhaol fel y nodir yn adran 52(4)(b) o'r Bil.

e. **Mewn perthynas ag adran 23(9), mae Tabl 5.1 yn y Memorandwm Esboniadol yn dweud, ‘Mae’r pŵer yn galluogi Gweinidogion Cymru i ddiwygio effaith deddfwriaeth sylfaenol’, ond mae'r pŵer yn adran 23(9) yn galluogi Gweinidogion Cymru i ddiwygio deddfwriaeth sylfaenol, nid dim ond ei heffaith.**

   Rydym yn cytuno â’r Pwyllgor, a bydd fy swyddogion yn diwygio’r Memorandwm Esboniadol i nodi bod y pŵer yn galluogi Gweinidogion Cymru i ddiwygio deddfwriaeth sylfaenol.

f. **Mewn perthynas ag adrannau 28(4)(b)(ix) a 29(1)(a), yn y Datganiad o Fwriad y Polisi, mae cyfeiriadau at ‘adran’ o Reoliadau Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (Cymru) 2019 yn hytrach na ‘rheoliad’.**

   Bydd fy swyddogion yn diwygio’r cyfeiriadau hyn.

g. **Mewn perthynas â pharagraff 3(f) o Atodlen 2, mae Tabl 5.1 yn y Memorandwm Esboniadol yn dweud bod y ‘pŵer yn galluogi Gweinidogion Cymru i ddiwygio deddfwriaeth sylfaenol’, ond pŵer yw hwn i bennu, mewn rheoliadau, ddeiliad swydd, neu aelod o gorff neu aelod o staff corff sydd wedi ei anghymhwyso rhag bod yn aelod anweithredol o’r Athrofa Dysgu Cymraeg Genedlaethol; ni fydd y rheoliadau hyn yn diwygio deddfwriaeth sylfaenol.**

   Rydym yn cytuno â’r Pwyllgor y bydd y rheoliadau cadarnhaol drafft arfaethedig yn pennu personau, ond na fyddant yn newid testun y ddeddfwriaeth sylfaenol. Bydd fy swyddogion yn gwneud hyn yn glir yn y Memorandwm Esboniadol.

   **A allwch gadarnhau yr eir i’r afael â’r pwyntiau hyn ac y bydd y Datganiad o Fwriad y Polisi a’r Memorandwm Esboniadol yn cael eu diwygio yn unol â hynny?**

   Rwy’n hapus i gadarnhau y bydd newidiadau’n cael eu gwneud i’r Memorandwm Esboniadol cyn ei osod gerbron y Senedd yn dilyn trafodion Cyfnod 2. Byddaf hefyd yn sicrhau bod fersiwn ddiwygiedig o’r Datganiad o Fwriad Polisi ar gael i’ch Pwyllgor chi a’r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg bryd hynny.

21. **Yn olaf, er na fydd angen ymateb mewn perthynas â'r materion a nodir isod, rydym am dynnu eich sylw atynt:**

    a. **Yn adran 32(4) o fersiwn Saesneg y Bil, dylai’r gair “Minsters” yn hytrach ddweud “Ministers”.**

    b. **Yn adran 37(3)(d) o fersiwn Saesneg y Bil, dylai'r gair “on” ar ôl “National Framework” yn hytrach ddweud “for”.**

    Rwy’n ddiolchgar i’r Pwyllgor am godi’r materion hyn, ac yn cytuno â’r Pwyllgor y dylid gwneud y cywiriadau.

## Amserlen ddangosol ar gyfer gweithredu’r Bil

Mae'r ddogfen hon yn adlewyrchu'r rhagdybiaethau cynllunio presennol ar gyfer gweithredu'r Bil a bydd yn cael ei diweddaru wrth i ni barhau i weithio ar weithredu'r Bil ac wrth i ddibyniaethau rhwng gweithgareddau ddod i’r amlwg.

| Blwyddyn | Blwyddyn ariannol | Dyddiad | Gweithgaredd |
|---|---|---|---|
| 1 | 2025-26 | Mai/Mehefin 2025 | Dyletswydd ar Weinidogion Cymru i gynnwys targed Miliwn o Siaradwyr Cymraeg mewn strategaeth ar hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg o dan adran 78 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yn dod i rym. [Mae hyn eisoes ar waith felly, ni fydd angen gweithredu]. |
| | | Hydref 2025 | Ymgynghori ar y Cod |
| 2 | 2026-27 | Gorffennaf 2026 | Cod yn derfynol |
| | | Hydref 2026 | Ymgynghori ar y rheoliadau Categoreiddio iaith a’r CSCA |
| 3 | 2027-28 | Gorffennaf 2027 | Gwneud y rheoliadau categoreiddio iaith a CSCA |
| | | Gorffennaf 2027 | Cwblhau’r adolygiad Safonau |
| | | Awst 2027 | Sefydlu’r Athrofa Dysgu Cymraeg Genedlaethol |
| | | Hydref 2027 | Ymgynghoriad ar y Strategaeth ddiwygiedig a’r Fframwaith Cenedlaethol |
| 4 | 2028-29 | Gorffennaf 2028 | Cyhoeddi Strategaeth y Gymraeg ddiwygiedig a’r Fframwaith Cenedlaethol |
| | | Awst 2028 ymlaen | Awdurdodau Lleol yn paratoi’r CSCA newydd |
| 5 | 2029-30 | Gorffennaf 2029 | Gweinidogion Cymru yn cymeradwyo’r CSCA newydd |
| | | Awst 2029 ymlaen | Ysgolion yn paratoi Cynlluniau Cyflawni (gan gymryd y CSCA i ystyriaeth) |
| 6 | 2030-31 | Gorffennaf 2030 | Terfyn amser i Awdurdodau Lleol gymeradwyo’r Cynlluniau Cyflawni (gan gynnwys categorïau ysgolion) |
| | | Awst 2030 | Cynlluniau Cyflawni ysgolion yn eu lle |
| 7 | 2031-32 | | |
| 8 | 2032-33 | Hydref 2032 | Adolygu’r Fframwaith Cenedlaethol |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 9 | 2033-34 | Ionawr 2033 | Cyflwyno'r 2il Cynllun Cyflawni i'r awdurdod lleol ei gymeradwyo |
| | | Gorffennaf 2033 | Diwedd y cynlluniau Cyflawni (a diwedd yr esemptiad cyntaf, os yn gymwys) |
| 10 | 2034-35 | | |
| 11 | 2035-36 | Gorffennaf 2036 | Diwedd unrhyw esemptiad pellach |

**Bil y Gymraeg ac Addysg (Cymru)**

**Amserlen ddanosgol ar gyfer gweithredu'r Bil**

| Allwedd | |
|---|---|
| (melyn) | Gweithgaredd i Weinidogion Cymru |
| (gwyrdd) | Gweithgareddd i Awdurdodoau Lleol |
| (porffor golau) | Gweithgaredd i ysgolion |
| (gwyn) | Dim angen gweithgaredd i'w weithredu |

2025 | 2026 | 2027 | 2028 | 2029 | 2030 | 2031 | 2032 | 2033 | 2034 | 2035 | 2036

**Cod**

- Ymgynghori ar y Cod Hydref 2025
- Cod yn derfynol Gorffennaf 2026

**Categoreiddio Iaith**

- Ysgolion yn paratoi Cynlluniau Cyflawni Awst 2029 ymlaen
- A LL i Gymeradwyo'r Cynlluniau Cyflawni Erbyn Gorffennaf 2030
- Cynlluniau Cyflawni yn eu lle, Awst 2030 (rhedeg hyd Gorffennaf 2033) Gorffennaf 2033 -Diwedd yr esemptiad cyntaf, os yn gymwys.
- Cyflwyno'r 2il Cynllun Cyflawni i'r ALl ei gymeradwyo Ionawr 2033
- Ail Cynlluniau Cyflawni yn eu lle Awst 2033 (rhedeg hyd Gorffennaf 2036) Gorffennaf 2036 – Diwedd unrhyw esemptiad pellach

**CSCA**

- Ymgynghori ar y rheoliadau Categoreiddio Iaith a'r CSCA Hydref 2026
- Gwneud y rheoliadau Categoreiddio iaith a CSCA Gorffennaf 2027
- A Ll yn paratoi'r CSCA newydd Awst 2028 ymlaen
- GC yn cymeradwyo'r CSGA newydd Gorffennaf 2029

**Strategaeth a Fframwaith Cenedlaethol**

- Dyletswydd i gynnwys targed Miliwn o Siaradwyr Cymraeg yn y strategaeth yn dod i rym. Cydsyniad Brenhinol (May/June 2025)
- Ymgynghoriad ar y Strategaeth diwygiedig a'r Fframwaith Cenedlaethol Hydref 2027
- Cyhoeddi Strategaeth y Gymraeg ddiwygiedig a'r Fframwaith Cenedlethol Gorffennaf 2028
- Adolygu'r Fframwaith Cenedlaethol Hydref 2032

**Arall**

- Cwblhau'r adolygiad Safonau Gorffennaf 2027
- Sefydlu'r Athrofa Gorffennaf 2027